# Trefn Cymeradwyo a Chofrestru Projectau Ymchwil Sensitif

| Adolygwyd | Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o’r Newid | Diweddaru teitl y Pwyllgor |
|---|---|---|---|
| 1. | 11 Mai 2016 | Cyhoeddiad cyntaf | Adolygu ac ailgymeradwyo |
| 2. | Tach89 r.04 121.44 34 | | |

1. Rhagarweiniad

moeseg ymchwil allanol priodol neu Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd (AREC) priodol. Fel rheol ystyrir y gweithgareddau ymchwil a ddisgrifir yn Adran 2 uchod yn rhai y mae iddynt fwy na risg bychan ac, o'r herwydd, rhaid eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor priodol yn gyntaf.

[b] Fel y'i diffinnir yn Adran 4.4 Polisi Moeseg Ymchwil y Brifysgol mae lefel ychwanegol o gyfrifoldeb a chraffu ar waith ymchwil a wneir y tu allan i'r Deyrnas Unedig neu sy'n cynnwys partneriaid o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig a dylai'r ymchwilwyr sicrhau eu bod wedi ystyried yr holl ofynion cyfreithiol yn llawn a holl ofynion cyfreithiol y cyrff proffesiynol perthnasol cyn cyflwyno dim gerbron pwyllgor moeseg ymchwil allanol neu'r Pwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd. Mae angen i bob gwaith ymchwil a noddir gan Brifysgol Bangor a wneir mewn sefydliad tramor gael ei gymeradwyo gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Academaidd neu, os oes un yn bod a'i fod yn briodol, gan bwyllgor moeseg ymchwil allanol y sefydliad lletyol.

Bydd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Brand hefyd yn cael rhestr o'r projectau ymchwil sensitif a

Mae'r Brifysgol yn cydnabod y cyfrifoldeb sydd arni i sicrhau y caiff ymchwilwyr eu hamddiffyn rhag camddehongli eu bwriadau gan yr awdurdodau a all arwain at sancsiynau cyfreithiol. Efallai y bydd aelodau o'r staff, yr heddlu a / neu asiantaethau eraill am gysylltu â'r Brifysgol i holi a yw unigolyn penodol yn gwneud gwaith ymchwil dilys. Dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath at yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn y lle cyntaf, a fydd wedyn gwneud gwiriadau er mwyn penderfynu a yw canfod deunydd o'r fath neu bryderon yn ei gylch yn gysylltiedig â phroject ymchwil cofrestredig.

6. Canllawiau Ymarfer Da

[a] Defnyddio proffil y brifysgol wrth ymweld â gwefannau sensitif

Dylai ymchwilwyr gofio bod ymweliadau â gwefannau sensitif (hyd yn oed o safleoedd mynediad agored) yn cael eu monitro gan yr heddlu / awdurdodau eraill ac, os canfyddir hynny, gallai beri ymchwiliad gan yr heddlu. Felly, wrth gynnal ymchwil o'r fath, rhaid defnyddio Protocol Mewnol y Brifysgol i gael mynediad at safleoedd er mwyn sicrhau bod unrhyw ymholiadau am weithgareddau o'r fath yn cyrraedd y sefydliad yn y lle cyntaf.

[b] Adrodd

Os daw aelod o'r staff neu fyfyriwr i wybod am broject ymchwil a'u bod yn credu bod angen trosolwg arno fel y nodir yn y Drefn hon, rydym yn eu hannog i gysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Moeseg Ymchwil priodol neu â'r Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil.

[c] Cydymffurfio a Monitro

Mae pob aelod o'r Brifysgol (yn staff ac yn fyfyrwyr fel ei gilydd) yn uniongyrchol gyfrifol ac atebol am yr wybodaeth y cânt fynediad ati ac y maent yn ei thrin fel rhan o'u gwaith ymchwil. Mae'r staff a'r myfyrwyr wedi'u rhwymo i lynu wrth Reoliadau Defnydd Derbyniol y Brifysgol.

Oni chydymffurfir â gofynion y polisi hwnnw lle mae ymchwil yn y cwestiwn yn unol ag Adran 2 uchod rhaid adrodd hynny wrth yr Uwch Swyddog Polisi a Llywodraethu Ymchwil yn y lle cyntaf. Gellid ystyried cymryd camau disgyblu a gallai’r data ymchwil a gasglwyd yn annilys.